

## **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Meddygfa Danescourt /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 18 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mehefin  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|    |                                                                              |    |
|----|------------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                      | 5  |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....                                                | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym.....                                                  | 7  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....                                                 | 9  |
|    | Darparu gofal diogel ac effeithiol .....                                     | 17 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....                                    | 23 |
| 4. | Beth nesaf?.....                                                             | 26 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....                           | 27 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . | 28 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....                                 | 29 |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella.....                                              | 31 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Healthcare Inspectorate Wales (HIW) completed an announced inspection of Danescourt Surgery, 4 Rachel Close, Danescourt, Cardiff, CF5 2SH, within Cardiff and Vale University Health Board on 18 March 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o reolwyr arolygu AGIC (gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Meddygfa Danescourt yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y practis yn gweithredu fel tîm cydlynus, gyda phwyslais ar ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Ar yr achlysur hwn, nodwyd nifer fach o feysydd gennym lle y gellid gwneud gwelliannau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd glân a thaclus
- Dywedodd y cleifion wrthym ei bod yn hawdd cael apwyntiad.
- Safon gyffredinol dda o ran cadw cofnodion
- Amgylchedd cefnogol, lle mae'r tîm yn cydweithio'n dda
- Ymgysylltu gweithredol â'r grŵp clwstwr<sup>1</sup> o Feddygon Teulu, gan gynnwys cymryd rhan mewn cynlluniau peilot i wella gwasanaethau i gleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r arwyddion yn y practis
- Roedd angen arddangos mwy o wybodaeth am weithdrefn cwynion GIG Cymru
- Roedd angen cynnal gwiriadau mwy rheolaidd o dymheredd yr oergell a ddefnyddiwyd i storio meddyginiaethau
- Cofnodion o statws y staff o ran imiwneiddio rhag Hepatitis B

---

<sup>1</sup> <http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/primary-care-clusters>

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Danescourt yn darparu gwasanaethau i tua 6000 o gleifion yn ardal Danescourt yng Nghaerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar meddyg teulu sy'n bartneriaid, rheolwr practis, saith cydgysylltydd cleifion a dwy nyrs practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinig asthma a chlinig clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD)<sup>2</sup>
- Profion pwysedd gwaed
- Brechlynnau plant
- Clinig clefyd cronig y galon
- Clinig diabetes
- Archwiliadau iechyd cyffredinol
- Electrocardiogramau<sup>3</sup> (ECGs)
- Fflebotomi
- Spirometreg<sup>4</sup>
- Brechlynnau teithio a chyngor

---

<sup>2</sup>Yr enw a roddir ar grŵp o gyflyrau'r ysgyfaint sy'n achosi anawsterau anadlu

<sup>3</sup> Prawf i gofnodi rhythm a gweithgarwch trydanol y galon

<sup>4</sup> Prawf i gofnodi sut mae'r ysgyfaint yn gweithio

- Rheoli clwyfau
- Gofal cynnedigol
- Archwiliadau cleifion newydd
- Gwasanaethau atal cenhedlu
- Clinig i fenywod, e.e. profion taenu ceg y groth



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis, a gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn rhoi pwyslais ar gynnig profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad gyda meddyg teulu yn ôl yr angen, a'u bod o'r farn bod y system mynediad agored yn un cadarnhaol iawn.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i gleifion, er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau iachach o ran eu ffordd o fyw

Dylid gwella'r arwyddion, a hynny y tu mewn i'r practis a'r tu allan iddo.

Roedd angen arddangos mwy o wybodaeth i gleifion am y weithdrefn cwynion

Cyn ein harolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a gawsant. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Derbyniwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers mwy na dwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Cafwyd ymatebion cadarnhaol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

*“Mae fy nheulu i gyd yn hapus iawn i fod yn gleifion yn y practis hwn. Mae'r meddygon teulu a'r staff wastad wedi bod yn gyfeillgar ac yn broffesiynol, ac yn arbennig o gymwynasgar ar adegau pan rydym wedi wynebu amgylchiadau anodd iawn”*

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion hefyd sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Ymysg y gwelliannau a awgrymwyd roedd y canlynol:

*“Mwy o feddygon, llai o amser aros”*

*“Cynnal sesiwn ar ffurf noson agored neu sesiwn gynnar iawn yn y bore i'r rheini sy'n gweithio 8:30am - 6pm”*

*“Ystafell aros ar wahân i'r cleifion sy'n aros i weld y Nyrs (INR) fel bod pobl yn osgoi dal annwyd ac ati”*

*“Rwy'n fyddar, felly ni allaf glywed pan fydd fy enw yn cael ei alw, wrth reswm, ond byddant yn chwifio neu'n edrych arnaf er mwyn rhoi gwybod i mi. Maen nhw'n dda iawn i fi, felly efallai gosod arwydd i ddweud y byddant yn helpu pobl fyddar.”*

## **Cadw'n iach**

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn siarad â nhw ac yn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.

Gwelsom fod nifer o bosteri a thafleuni gwybodaeth i'r cleifion eu darllen a'u cadw yn ardal aros y practis. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn helpu i roi gwybodaeth i'r cleifion am gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd gan y practis hefyd boster yn cynnwys nifer o godau QR<sup>5</sup>, yn rhoi amrywiaeth eang o wybodaeth am y practis yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd. Golygai hyn fod y cleifion yn gallu sganio'r codau ar eu

---

<sup>5</sup>Codau QR yw'r sgwariau du a welir ar wefannau, posteri ac ati, y gellir eu sganio â ffôn/dyfais glyfar, ac maent yn mynd â chi yn syth at amrywiaeth o wybodaeth, h.y. gwefan y practis, grwpiau hunangymorth, gwybodaeth am ffordd iach o fyw

dyfeisiau symudol er mwyn cael gwybodaeth a'i darllen ar amser a oedd yn gyfleus iddynt.

Roedd gan y practis fwrdd penodedig i ofalwyr yn ardal aros y practis, a oedd yn cynnig gwybodaeth a chynghor yn benodol i ofalwyr. Roedd y practis hefyd wedi enwebu hyrwyddwr gofalwyr y gallai gofalwyr gysylltu ag ef am gynghor a chymorth.

## **Gofal ag urddas**

Gwelsom y staff yn cyfarch pobl mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar wrth ddesg y dderbynfa. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff y practis.

Dywedodd pob un ond tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gallent weld eu dewis feddyg bob amser.

Roedd y dderbynfa wedi'i lleoli yn yr ystafell aros, ac roedd yn brysur iawn ar brydiau. Gwelsom fod y staff yn siarad â chleifion yn dawel er mwyn helpu i gynnal eu cyfrinachedd. Dywedwyd wrthym, pe bai claf yn dymuno siarad ag aelod o'r staff yn breifat, y byddai'n cael ei dywys o ardal y dderbynfa i ddiogelu ei breifatrwydd. At ei gilydd, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa gefn, gan olygu nad oedd y cleifion a oedd yn aros yn clywed y sgysiau hyn ar ddamwain.

Gwelsom fod y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd y staff yn gweld cleifion. Roedd llenni hefyd ar gael o gwmpas y gwelyau archwilio, gan gynnig preifatrwydd i gleifion wrth iddynt ddadwisgo.

Roedd polisi ysgrifenedig ar hebryngwyr<sup>6</sup>, a gwelsom fod hyn yn cael ei hysbysebu i gleifion fel gwasanaeth y gallent ofyn amdano. Roedd aelodau perthnasol o'r staff hefyd wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni rôl hebryngwr.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod nifer o'r cleifion yn gwneud sylwadau ac yn gofyn i'r staff ddangos iddynt ble roedd yr ystafelloedd ymgynghori. Hefyd,

---

<sup>6</sup> Person sy'n gweithredu fel tyst ar gyfer y claf a'r ymarferwr yn ystod archwiliadau a thriniaethau meddygol.

clywsom gleifion yn dweud wrth y staff eu bod wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i'r practis, gyda rhai ohonynt yn mynd i'r fferyllfa drws nesaf i ofyn am gyfarwyddiadau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ystyried a yw'r arwyddion y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad yn ddigonol.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis wefan a thaflen am y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y practis a'r gwasanaethau roedd yn eu cynnig. Roedd hysbysfwrdd hefyd yn cael ei arddangos wrth fynedfa'r feddygfa, a oedd yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i gleifion am y practis, fel gwybodaeth am y newidiadau staff a oedd ar fin digwydd.

Fel y soniwyd eisoes, roedd taflenni gwybodaeth am iechyd a llesiant ar gael i gleifion yn yr ardal aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor ar hybu iechyd a rheoli hunanofal ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd.

Roedd cleifion yn gallu cofrestru ar gyfer gwasanaeth negeseuon testun a oedd yn eu hatgoffa am eu hapwyntiadau, yn ogystal â chael gwybodaeth am y practis, er enghraifft os oedd ar gau oherwydd tywydd garw.

Er gwaetha'r wybodaeth yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar y wefan, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Efallai yr hoffai'r practis ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth hwn.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio llinell iaith, a oedd yn rhoi cymorth ieithyddol i gleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Roedd rhai aelodau o'r staff yn gallu sgwrsio a chynnal apwyntiadau yn Gymraeg.

Roedd gan y practis ddolen sain i helpu cleifion a oedd yn fyddar neu'n drwm eu clyw. Fodd bynnag, roedd wedi torri ar adeg yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod un newydd wedi'i harchebu a'u bod yn aros iddi gyrraedd.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd roeddent yn ei deall, a gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymument mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

## **Gofal amserol**

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon, a bod prosesau ar waith i sicrhau hyn. Roedd gan y practis system mynediad agored i apwyntiadau yn y bore. Golygai hyn fod cleifion yn gallu eistedd ac aros am apwyntiad gyda meddyg. Dywedwyd wrthym, pe bai dau feddyg neu fwy ar gael, y byddai cleifion yn gallu dewis pa feddyg y byddai'n well ganddynt ei weld.

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn hapus iawn â'r system hon, am eu bod yn gallu cael apwyntiadau pan oedd eu hangen arnynt. Roedd y practis hefyd yn cynnig apwyntiadau o ddydd Llun i brynhawn dydd Iau, ar gyfer anghenion nad oeddent yn rhai brys. Roedd prynhawn dydd Gwener wedi'i neilltuo ar gyfer apwyntiadau brys yn unig.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion yn yr holiaduron roedd:

*"Mae'r system galw heibio yn wych. Mae'n rhoi hyder mawr i wybod y gallwch weld meddyg teulu os byddwch yn dod i mewn cyn 10:30 yn hytrach nag aros wythnosau am apwyntiad. Meddygfa grêt, staff hyfryd"*

*"Rwy'n gwerthfawrogi'r sesiynau 'cerdded i mewn' yn y boreau yn fawr iawn. Syniad gwych, gobeithio y bydd yn parhau"*

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu profiad fel un 'da iawn' neu 'dda'.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cymryd rhan mewn cynllun peilot lle roedd yn cynnig apwyntiadau y tu allan i oriau i gleifion ar un diwrnod yn ystod y penwythnos. Gwnaed hyn fel rhan o'r clwstwr, gyda phractisau meddygon teulu yn eu tro yn cynnig apwyntiadau i gleifion yn eu grŵp clwstwr. Golygai hyn fod

gan gleifion fynediad lleol at wasanaeth y tu allan i oriau, ac nad oedd yn rhaid iddynt deithio i un o'r tair canolfan gofal sylfaenol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Roeddem o'r farn bod hwn yn arfer y mae'n werth tynnu sylw ato, a dywedodd y staff wrthym fod y cleifion bob amser yn rhoi adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth. Roedd y cynllun peilot ar fin dod i ben, a byddai'n cael ei werthuso i benderfynu p'un a ddylai'r gwasanaeth hwn barhau yn y dyfodol.

Roedd y practis yn ymgysylltu'n weithredol â'r cynllun Dewis Doeth<sup>7</sup>. Golygai hyn ei fod yn helpu i hyrwyddo amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion, gan ddibynnu ar eu hanghenion. Yn benodol, roedd y practis yn hyrwyddo Dewis Fferyllfa<sup>8</sup> ar gyfer mân anhwylderau. Gwelsom bosteri yn hysbysebu'r gwasanaeth hwn yn ardal aros y practis.

Gwnaethom ystyried nifer o gofnodion cleifion a gwelsom fod proses gadarn ar waith ar gyfer atgyfeirio cleifion at arbenigwyr, a bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu gweithredu mewn modd amserol. Roedd cyfle hefyd i'r meddygon teulu a oedd yn bartneriaid drafod cleifion yn rheolaidd, gan gynnwys atgyfeiriadau ac ail farn, gan fod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer y trafodaethau hyn.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwelsom fod mynediad da i bobl anabl, gyda nifer o leoedd parcio yn agos iawn at y practis. Roedd lle parcio dynodedig i bobl anabl yn uniongyrchol y tu allan i'r adeilad. Roedd drws awtomatig i'r brif fynedfa, ac roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn, rhai ag anawsterau symudedd a rhai â chadeiriau gwthio.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y practis, ac roedd lifft i'r llawr cyntaf.

---

<sup>7</sup> <http://www.dewisdoethcymru.org.uk/hafan>

<sup>8</sup>

[http://www.dewisdoethcymru.org.uk/sitesplus/documents/994/Minor%20Ailments%20Services\\_Leaflet\\_Welsh.pdf](http://www.dewisdoethcymru.org.uk/sitesplus/documents/994/Minor%20Ailments%20Services_Leaflet_Welsh.pdf)

Roedd y practis yn cynnal clinigau i gleifion ag anghenion gofal iechyd penodol, fel COPD, asthma ac afiechydon cronig, er mwyn eu helpu i reoli eu cyflyrau. Roedd dau o'r cydgysylltwyr cleifion yn gyfrifol am drefnu'r apwyntiadau hyn. Pan fethodd claf ei apwyntiad, gwelsom fod prosesau dilynol cadarn ar waith er mwyn helpu a chefnogi cleifion i fynychu unrhyw apwyntiad a aildrefnwyd.

### Hawliau pobl

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifir gennym drwy gydol yr adran hon yn nodi bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hawliau pobl.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gweithdrefn cwynion fewnol ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Fodd bynnag, roedd angen arddangos gwybodaeth am broses cwynion y GIG, Gweithio i Wella<sup>9</sup>, yn y practis er mwyn i gleifion ei gweld. Yn ogystal, dylai tafenni gwybodaeth Gweithio i Wella fod ar gael i'r cleifion fynd â nhw gyda nhw. Gwelsom fod gwybodaeth am y Cyngor Iechyd Cymuned<sup>10</sup> ar gael yn y practis, yn hysbysebu ei gefnogaeth i gleifion a oedd yn dymuno gwneud cwyn.

Rhodddwyd pwyslais ar ddelio â ffynhonnell unrhyw gwynion er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl. Roedd pob cwyn yn cael ei dwyn i sylw rheolwr y practis a fyddai'n delio â nhw yn unol â pholisi'r practis.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn cadw gwybodaeth a gohebiaeth am gwynion a ddeuai i law. Roedd y practis hefyd yn cadw cofnod cyffredinol o'r cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys camau a gymerwyd a chanlyniadau. Gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth, fel rhai dyddiadau, yn anghywir a bod angen ei hadolygu.

Roedd blwch awgrymiadau i gleifion yn yr ardal aros a slipiau papur i'r cleifion eu llenwi. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn.

---

<sup>9</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

<sup>10</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/home>

Nid oedd gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion. Fodd bynnag, gwelsom yn eu Cynllun Datblygu Practis<sup>11</sup>, dyddiedig 2017, ei fod yn ystyried sefydlu grŵp ar gyfer y practis. Byddem yn annog y practis i wneud hyn.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis arddangos gwybodaeth i gleifion ar broses cwynion Gweithio i Wella GIG Cymru, a darparu taflenni i gleifion allu mynd â nhw gyda nhw.

---

<sup>11</sup> Adolygiad o angen lleol a'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis er mwyn creu Cynllun Datblygu Practis gyda blaenoriaethau ar gyfer gweithredu



## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Gwelsom fod lefel dda o gefnogaeth fferyllol, gydag amrywiaeth o wasanaethau ar gael, wedi'u darparu gan fferylllydd y clwstwr.

Roedd y gwasanaeth yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau rheoli heintiau da ar waith.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom o safon dda, gan helpu i ddangos gofal o safon dda.

Gwelwyd cyfathrebu effeithiol yn fewnol a chyda'r tîm clinigol ehangach, er mwyn sicrhau diogelwch ac er budd y cleifion.

Atgoffwyd y practis i sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu cadw ar glo bob amser.

Roedd angen gwneud gwelliannau o ran gwirio tymereddau'r oergelloedd a ddefnyddiwyd i storio brechlynnau cleifion.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Wrth fynd o amgylch y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwmpo. Yn gyffredinol, roedd adeilad y practis mewn cyflwr da, a hynny y tu mewn a'r tu allan.

Gwelsom fod oergell yn ardal y grisiau a ddefnyddiwyd ar brydiau i storio samplau wrin cleifion. Nid oedd yr oergell wedi'i chloi ac felly gallai unrhyw un a oedd yn mynd heibio gael gafael ar y cynnwys.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd, er mwyn helpu i wneud yn siŵr ei fod yn aros mewn cyflwr da. Gwelsom hefyd fod y cyfarpar diogelwch tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, a bod y staff yn cael hyfforddiant yn ystod eu rhaglen sefydlu.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr oergell yn ardal y grisiau'n cael ei chloi'n ddiogel, neu fod y cynnwys yn cael ei symud i ardal nad yw'n agored i gleifion.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis meddygon teulu yn lân iawn.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd peiriannau glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd.

Gwelsom fod y llenni yn yr ystafelloedd triniaeth yn rhai tafladwy a olygai bod modd eu tynnu oddi yno a rhoi rhai newydd yn eu lle yn hawdd pe byddent yn cael eu halogi neu eu baeddu. Mae hyn yn dangos ymrwymiad da i atal a rheoli heintiau. Yn ogystal, roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith, a gwelsom fod yr archwiliad diwethaf o'r trefniadau rheoli heintiau wedi'i gynnal yn 2018.

Gwelsom ddau fin gwastraff clinigol yn cael eu storio o dan y grisiau, mewn cyntedd lle roedd cleifion yn cerdded. Yn ystod ein taith o'r safle, gwelsom fod un o'r biniau, a oedd yn cynnwys offer miniog, heb ei gloi. Hysbyswyd rheolwr y practis am hyn ar unwaith, ac aeth ati'n syth i gloi'r bin.

Gwelsom fod rhai cofnodion wedi'u cadw mewn perthynas â statws imiwneiddio Hepatitis B y staff. Roedd y cofnodion hyn yn cael eu cadw'n ddiogel gan reolwr y practis. Fodd bynnag, nid oedd modd i ni weld tystysgrif imiwneiddio ar gyfer un aelod o'r staff. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda rheolwr y practis, a

ddywedodd wrthym fod y meddygon teulu sy'n bartneriaid wedi cytuno mewn cyfarfod diweddar y byddent yn profi pob aelod o'r staff i bennu eu lefelau imiwneidd a chymryd camau lle y bo'n briodol. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd rheolwr y practis fod profion ar gyfer un aelod o'r staff, nad oedd cofnodion ar gael ar ei gyfer, wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau bod ei statws imiwneiddio Hepatitis B yn hysbys.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu cadw ar glo bob amser.

Rhaid i'r practis sicrhau y cedwir cofnod o statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff bob amser.

### Rheoli meddyginiaethau

Datgelodd trafodaethau â'r staff, a'r wybodaeth am gleifion a gofnodwyd a ystyriwyd gennym, fod y system a'r prosesau a oedd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau o safon dda.

Roedd un o'r meddygon teulu a oedd yn bartner wedi'i ddynodi fel y swyddog rhagnodi arweiniol ar gyfer y practis, a gwelsom fod hyn yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei rhaedru drwy'r practis. Roedd fferyllydd, a gyflogwyd gan y clwstwr, yn cefnogi'r practis am ddiwrnod a hanner bob wythnos. Roedd yn rhoi cyngor a chymorth i'r practis, ac roedd hefyd yn cynnal adolygiadau o feddyginiaeth cleifion cymhleth, archwiliadau meddyginiaeth ac yn adolygu crynodebau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dywedodd y staff fod y cymorth hwn yn werthfawr i'r practis.

Gwelsom fod cofnod o archwiliadau rheolaidd o offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng. Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng yn ymwneud â chleifion yn rheolaidd.

Gwelsom nad oedd tymereddau'r oergelloedd a ddefnyddir i storio brechlynnau yn cael eu gwirio'n gyson bob dydd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y caiff brechlynnau eu storio ar dymheredd priodol i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'w defnyddio bob amser.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â gwirio tymereddau'r oergelloedd o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at

y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion ar waith a bod un o'r meddygon teulu a oedd yn bartner wedi cael ei benodi fel arweinydd diogelu'r practis. Nid oedd polisi diogelu'r practis wedi cael ei adolygu er bod y dyddiad adolygu wedi mynd heibio. Roedd rheolwr y practis yn ymwybodol o hyn, a dywedodd wrthym fod cynllun ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddarau'n fuan.

Gwnaethom edrych ar nifer o gofnodion cleifion a bu modd i ni gadarnhau, lle y bo'n briodol, fod prosesau ar waith i nodi unrhyw bryderon neu anghenion o ran diogelu. Dywedwyd wrthym hefyd fod cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal gydag ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol dechrau'n deg<sup>12</sup>, er mwyn helpu i nodi plant a oedd yn wynebu risg neu blant ag anghenion ychwanegol.

Roedd rheolwr y practis yn cadw cofnod o hyfforddiant, a bu modd i ni weld bod yr hyfforddiant diogelu yn cael ei gynnal yn rheolaidd, a bod disgwyl i bob aelod o'r staff fynychu.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Gwelsom fod cofnodion manwl o'r gwaith gwasanaethu a chalibradu cyfarpar wedi'u cynnal, er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod cyfarpar meddygol yn aros yn ddiogel i'w ddefnyddio.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd gan y practis drefniadau addas i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y trefniadau ar gyfer rhannu rhybuddion diogelwch a dderbyniwyd gan y practis yn cael eu rheoli'n briodol. Gwelsom fod unrhyw ddigwyddiadau pwysig yn cael eu trafod fel tîm yn rheolaidd, er mwyn sicrhau y gellid rhannu'r gwersi a

---

<sup>12</sup> <https://www.flyingstartcardiff.co.uk/>

ddysgwyd. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cofnodion cleifion (lle y bo'n briodol). Byddai gwybodaeth gyffredinol a dderbyniwyd gan reolwr y practis yn cael ei rhannu drwy e-bost ac yng nghyfarfodydd tîm y practis.

Nid oedd y practis wedi cofrestru i dderbyn hysbysiadau gan NICE<sup>13</sup> yn ymwneud â chanllawiau arfer gorau. Rydym yn argymhell y dylai'r practis wneud hyn a'u rhannu â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth am ganllawiau cenedlaethol ac arfer gorau.

Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain. Dywedasant wrthym y byddai'r uwch staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd camau yn ôl yr angen.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod canllawiau NICE yn cael eu rhannu â phob aelod perthnasol o staff y practis.

#### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y practis yn aelod gweithredol o grŵp meddygon teulu'r clwstwr lleol, a'i fod yn ymwneud â nifer o gynlluniau peilot a mentrau. Roedd y rhain yn cynnwys cynllun peilot ar y gwasanaethau y tu allan i oriau, a phenodi gweithwyr proffesiynol iechedd meddwl yn y practis, i gefnogi cleifion ag anghenion gofal iechedd meddwl penodol.

#### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth clir ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon.

Roedd cofnodion cleifion hefyd yn cael eu storio a'u diogelu'n briodol er mwyn atal mynediad iddynt heb awdurdod.

---

<sup>13</sup> <https://www.nice.org.uk/>

## Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac ar y cyfan, roeddent o safon dda, gan gefnogi'r gofal a'r driniaeth a roddir i'r cleifion. Gwnaethom argymhell lle y gellid gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff yr holl gofnodion eu cadw'n unol â safon gyson. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cofnodi pan oedd hebryngwr yn cael ei gynnig, gan gynnwys a oedd y claf wedi derbyn neu wrthod y cynnig.

Er bod y gwaith o grynhoi nodiadau cleifion yn cael ei wneud i safon dda, nodwyd gennym fod hyn yn cael ei wneud gan aelod anghlinigol o'r staff.

Roedd y system TG a ddefnyddir gan y practis yn cofnodi bod pob ymgynghoriad â chleifion yn digwydd yn y Feddygfa, hyd yn oed os oedd yr apwyntiad yn ymweliad â'r cartref. Argymhellwn y dylai'r practis ystyried chwilio am ffyrdd o sicrhau bod apwyntiadau yn cael eu cofnodi'n gywir, gan ddangos pa fath o apwyntiad ydoedd. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn nodi os cafodd hebryngwr ei gynnig, a chofnodi a gafodd y cynnig hwn ei dderbyn neu ei wrthod.

Rhaid i'r practis sicrhau trosolwg clinigol o'r gwaith o grynhoi cofnodion cleifion, neu fod adolygiad clinigol rheolaidd yn cael ei gynnal ohono.

## **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dîm cydlynus yn y practis, a oedd yn dangos cymhelliant i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal yn y practis, gan gynnig cyfleoedd i'r staff drafod pryderon a materion yn ymwneud â chleifion a'r practis, a hynny ar sail anffurfiol a ffurfiol.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a bod cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt.

## **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Gwelsom fod y practis yn ei gyfarwydd yn gweithio mewn ffordd gydlynus. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a bod cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt.

Roedd y practis yn mynd drwy gyfnod o newid, gydag un meddyg teulu hirdymor yn ymddeol ac un arall yn lleihau ei oriau. Roedd y practis wedi cynnal proses recriwtio lwyddiannus i lenwi swyddi'r hyn, ac roedd disgwyl i'r meddygon teulu newydd ddechrau yn y rolau hyn yn fuan. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn edrych ymlaen at y newidiadau y gallai'r meddygon teulu newydd eu gwneud.

Gwelsom fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer y staff i gyd, a bod cofnodion yn cael eu llunio a'u rhannu gyda'r staff hynny nad oedd modd iddynt fynychu'r cyfarfod. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent

godu unrhyw bryderon, neu unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd hyn, a'u bod yn teimlo y byddai rhywun yn gwrando arnynt. Dywedwyd wrthym fod adolygiad o rai o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis wedi'i gynnal yn ddiweddar, a bod newidiadau wedi cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau bod y staff yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom fod y practis yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r grŵp clwstwr lleol. Roedd rheolwr y practis yn mynychu'r cyfarfodydd, ac yn aml, byddai un o'r meddygon teulu sy'n bartner yn mynd hefyd. Gwelsom hefyd fod y practis yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot a drefnwyd gan y clwstwr, fel ffordd o helpu i wella gwasanaethau i gleifion.

Roedd Cynllun Datblygu Practis tair blynedd ar waith gan y practis, a luniwyd yn 2017. Gwelsom fod llawer o'r meysydd i'w datblygu wedi'u cwblhau.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau er mwyn helpu i lywio gwelliant; roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cofnodion cleifion, rheoli heintiau, amgylcheddol ac archwiliadau clinigol eraill a gynhaliwyd gan y meddygon teulu sy'n bartneriaid.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

Roedd y pedwar meddyg teulu sy'n bartneriaid wedi bod yn gweithio yn y practis ers tua 25 mlynedd, gan greu gweithlu cadarn o feddygon teulu. Dywedwyd wrthym nad oeddent yn defnyddio rhyw lawer ar feddygon teulu locwm, gan nad oedd eu hangen am fwy nag un neu ddwy sesiwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Er bod tîm y practis yn fach, gwelsom fod prosesau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn creu amgylchedd o waith tîm effeithiol ac effeithlon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu eu sgiliau a dilyn hyfforddiant. Roedd pob un o'r cydgysylltwyr cleifion yn rhannu rolau a chyfrifoldebau, gyda rhai ohonynt wedi'u nodi fel swyddogion arweiniol ar gyfer meysydd unigol fel rheoli dogfennau. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn gallu darparu cymorth a chyflenwi ar gyfer y rolau hyn yn ystod cyfnodau o absenoldeb.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn wynebu rhywfaint o broblemau staffio oherwydd absenoldeb salwch a gwyliau blynyddol, a allai effeithio ar allu'r staff i wneud eu gwaith yn effeithiol. Trafodwyd hyn gyda rheolwr y practis, a oedd yn ymwybodol iawn o'r materion, gan fod gofyn i'r staff gyd-dynnu i sicrhau bod yr holl rolau a chyfrifoldebau yn cael eu cyflawni. Golygai hyn fod y



staff yn teimlo dan bwysau ar adeg ein harolygiad. Gwnaethom argymhell y dylai rheolwr y practis ystyried a oedd unrhyw oblygiadau hirdymor i'r staff pe byddai'r problemau staffio'n parhau am unrhyw gyfnod sylweddol o amser. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cynnig cyfleoedd da i ymgymryd â hyfforddiant, drwy gyfuniad o sesiynau hyfforddi ar-lein a mewnol. Gwelsom fod rheolwr y practis yn cadw taenlen gyffredinol a oedd yn cynnwys pynciau hyfforddiant craidd i staff clinigol a saff anghlinigol, ac yn monitro pryd roedd angen i hyfforddiant gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn arfarnu. Gwelsom fod y staff yn cael arfarniadau blynyddol, er mwyn adolygu eu gwaith dros y flwyddyn a aeth heibio, a hefyd nodi unrhyw anghenion wrth symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

Roedd y practis wedi recriwtio i lenwi nifer o swyddi'n ddiweddar, a gwelsom fod prosesau ar waith i gefnogi proses recriwtio ddiogel. Gwelsom hefyd fod cynllun sefydlu ar waith er mwyn helpu i roi cymorth a chanllawiau i aelodau newydd o'r staff.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| <b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>                                                                                                                                                                       | <b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>                                                                           | <b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b> | <b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>                |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|
| Yn ystod taith o'r practis, nodwyd nad oedd y biniau a ddefnyddiwyd i storio gwastraff clinigol wedi'u cloi. Roedd y rhain wedi'u lleoli o dan y grisiau mewn cyntedd agored a ddefnyddiwyd gan y cleifion. | Golygai hyn fod cyfle i gleifion gael gafael ar gynnwys y biniau, a ddefnyddiwyd i storio gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog. | Hysbyswyd rheolwr y practis yn syth.                  | Aeth rheolwr y practis ati ar unwaith i gloi'r biniau. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Meddygfa Danescourt

**Dyddiad arolygu:** 18 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith                                                                      | Safon                                                           | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddog cyfrifol          | Amserlen  |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|-----------|
| Rhaid i'r practis sicrhau bod tymereddau'r oergelloedd cyffuriau yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n ddyddiol. | Safonau lechyd a Gofal (Ebrill 2015) 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | Ar ôl cwblhau archwiliad o'r cyfnod rhwng 1 Ionawr a 21 Mawrth, gwelsom nad oedd y tymereddau wedi'u cofnodi bob diwrnod gwaith. Mae patrwm wedi dod i'r amlwg, ac eir i'r afael ag ef fel a ganlyn:<br><br>Darperir logiau tymheredd newydd ar gyfer misoedd calendr penodol, yn hytrach nag ysgrifennu'r dyddiad ar ffurflen wag.<br><br>Pan fydd y nyrsys yn absennol, bydd aelod dynodedig o'r staff yn gyfrifol am ddarllen tymheredd yr | Nichola Rae a Lisa Butler | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------------|-------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------|
|                                       |       | <p>oergelloedd.</p> <p>Deallwn y dylai'r darlleniadau fod wedi cael eu cymryd bob diwrnod gwaith ond mae larymau ar bob oergell a phe bai'r tymheredd y tu allan i'r ystod dderbyniol, byddai'r larwm wedi canu a byddai staff y practis wedi'i glywed (hyd yn oed drwy ddrws clo). O ganlyniad, rydym o'r farn na chafodd diogelwch y cleifion ei beryglu.</p> |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** **Thelma Speed**

**Swydd:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **21 Mawrth 2019**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Meddygfa Danescourt**

**Dyddiad arolygu: 18 Mawrth 2019**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                              | Safon                          | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                        | Swyddog cyfrifol | Amserlen           |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|--------------------|
| <b>Ansawdd profiad y claf</b>                                                                                                                           |                                |                                                                                                                                                                                    |                  |                    |
| Rhaid i'r practis ystyried a yw'r arwyddion y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad yn ddigonol.                                                             | 4.1 Gofal ag Urddas            | Bydd y practis yn darparu arwyddion allanol newydd ar yr adeilad.<br><br>Byddwn yn adolygu'r arwyddion yn yr adeilad.                                                              | Thelma Speed     | Erbyn hydref 2019. |
| Rhaid i'r practis arddangos gwybodaeth i gleifion ar broses cwynion Gweithio i Wella GIG Cymru, a darparu taflenni i gleifion allu mynd â nhw gyda nhw. | 6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth | Roedd y taflenni eisoes ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wefan, ond maent bellach yn cael eu harddangos yn y ddwy iaith yn yr ystafell aros a gall y cleifion fynd â nhw gyda | Thelma Speed     | Cwblhawyd          |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                   | Safon                                     | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                 | Swyddog cyfrifol | Amserlen     |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|--------------|
|                                                                                                                                                                                                              |                                           | nhw.                                                                                                                                                        |                  |              |
| <b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>                                                                                                                                                                    |                                           |                                                                                                                                                             |                  |              |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr oergell yn ardal y grisiau'n cael ei chloi'n ddiogel, neu fod y cynnwys yn cael ei symud i ardal nad yw'n agored i gleifion.                                                | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Mae'r oergell wedi'i symud o ardal y grisiau.                                                                                                               | Thelma Speed     | Cwblhawyd    |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu cadw ar glo bob amser.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau y cedwir cofnod o statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff bob amser. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi     | Atgoffwyd y staff i'w cadw ar glo.<br><br>Mae'r statws Hep B a oedd ar goll wedi'i ddiweddarau.                                                             | Thelma Speed     | Cwblhawyd    |
| Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod canllawiau NICE yn cael eu rhannu â phob aelod perthnasol o staff y practis.                                                                             | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol   | Mae meddyg teulu wedi cofrestru ar gyfer diweddariadau ar Ganllawiau NICE a byddant yn cael eu rhannu â'r staff clinigol yn ystod ein cyfarfodydd clinigol. | Thelma Speed     | Cwblhawyd    |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn nodi os cafodd hebryngwr ei gynnig, a chofnodi a gafodd y cynnig hwn ei dderbyn neu                                                                      | 3.5 Cadw cofnodion                        | Byddwn yn trafod Hebryngwyr yn ystod ein cyfarfod clinigol nesaf.                                                                                           | Thelma Speed     | Mehefin 2019 |



| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                           | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                           | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------|
| ei wrthod.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau trosolwg clinigol o'r gwaith o grynhoi cofnodion cleifion, neu fod adolygiad clinigol rheolaidd yn cael ei gynnal ohono. |       | Bydd y polisi crynhoi yn cael ei ddiweddarau i gynnwys archwiliad rheolaidd o'r nodiadau a grynhowyd. |                  |          |
| <b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>                                                                                                                           |       |                                                                                                       |                  |          |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn.                                                                                                               |       |                                                                                                       |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** **Thelma Speed**

**Swydd:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **09/05/2019**